

13 Awst 2013

Annwyl William Powell AC,

Deiseb P-04-483 Polisi Cymraeg Clir / Plain English

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 23 Gorffennaf 2013 ynghylch y ddeiseb uchod. Diolch hefyd am y copïau o ohebiaeth Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r un ddeiseb. Rydym yn falch iawn o weld holl fater yr angen i gyfathrebu â'r cyhoedd mewn Cymraeg clir a dealladwy yn destun trafodaeth gyhoeddus. Rydym yn falch hefyd o weld fod canllawiau arddull y Cynulliad yn rhoi anogaeth bendant i gyfieithwyr mewnol ac allanol sy'n cyfieithu ei ddogfennau cyhoeddus i gadw at arddull ac iaith glir. O ran ein profiad ni fel canolfan o ymwneud ag adrannau gwahanol y Cynulliad, rydym yn berffaith fodlon tystio i'r ymdrechion amlwg y mae'r swyddogion yn eu gwneud i gadw at y canllawiau hyn.

Mae eich llythyr yn gofyn yn benodol am ein barn ynghylch priodoldeb mabwysiadu polisi ffurfiol ar gyfer cyfathrebu mewn Cymraeg Clir / *Plain English*. Gan fod llythyrau Prif Weinidog Cymru a Phrif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad yn amlygu'r ffaith fod yr egwyddor o gyfathrebu mewn iaith glir a naturiol eisoes wedi'i derbyn, efallai na fyddai unrhyw ddrwg mewn crynhoi hynny ar ffurf dogfen fer. O fabwysiadu polisi o'r fath, efallai y gellid hefyd

CANOLFAN BEDWYR

ystyried y cam o ddefnyddio marc Cymraeg Clir¹ a'r *Crystal Mark* yn y Saesneg er mwyn amlygu hynny mewn modd gweladwy ar ddogfennau cyhoeddus. Yn y cyswllt hwn, mae'n werth pwysleisio pwysigrwydd amcanu at eglurder yn y naill iaith a'r llall. Does dim yn hwyluso mwy ar waith cyfieithydd na thestun sydd wedi'i ysgrifennu'n glir a dealladwy yn y lle cyntaf.

Yn naturiol, yr her wrth symud o ganllawiau at bolisi ydy sicrhau fod gweithdrefnau digon cadarn yn eu lle ar gyfer cadw at yr egwyddorion sy'n cael eu mabwysiadu. Mewn sefydliad sy'n cynhyrchu cymaint o ddeunyddiau dwyieithog, gwyddom nad tasg hawdd yw sicrhau cysondeb arddull er gwaethaf pob anogaeth a chanllaw. Yn hynny o beth, un awgrym gwerth ei ystyried yw sefydlu trefn olygu fewnol (neu allanol) ar gyfer sicrhau fod pob un o ddogfennau cyhoeddus y Cynulliad yn glir a dealladwy.

Gobeithio y bydd y sylwadau hyn o gymorth i'r pwyllgor wrth geisio ymateb i gynnwys y ddeiseb. Os oes unrhyw gyfraniad pellach y gallwn ni ei wneud i'r drafodaeth ei hun, neu i unrhyw gamau yn deillio o'r drafodaeth, fe fyddem yn hapus iawn i geisio gwneud hynny.

Yn gywir,



Dr Llion Jones

Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr

(ar ran Uned Cymraeg Clir y ganolfan)

¹ Mae gwybodaeth am farc Cymraeg Clir i'w chael yma:

http://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/marc_cc.php.cy

CANOLFAN BEDWYR
SAFLE'R NORMAL
PRIFYSGOL BANGOR
BANGOR, GWYNEDD,
LL57 2PX
FFÔN: (01248) 388054
FFACS: (01248) 383243

CANOLFAN BEDWYR
NORMAL SITE
BANGOR UNIVERSITY
BANGOR, GWYNEDD,
LL57 2PX
TEL: (01248) 388054
FAX: (01248) 383243

DR. LLION JONES
Cyfarwyddwr / Director

E-BOST/EMAIL:
llion.jones@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr